Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Gwarchodfa Natur Genedlaethol Dyfi National Nature Reserve

# Cors Fochno

## Croeso i Cors Fochno - rhan o Warchodfa Natur Genedlaethol Dyfi (GNG)

**Mae'r warchodfa fawr hon yn cwmpasu dros 2,000 hectar, ac mae'n cynnwys tair prif ardal a nifer o wahanol gynefinoedd ar gyfer bywyd gwyllt a phlanhigion.**

**Cors Fochno:** un o'r enghreifftiau mwyaf a gorau sydd ar ôl o gyforgors fawn ym Mhrydain.

**Twyni Ynyslas:** y twyni mwyaf yng Ngheredigion ac er ei bod yr ardal leiaf yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Dyfi, dyma'r ardal sy'n derbyn y nifer mwyaf o ymwelwyr.

**Aber Afon Dyfi:** gydag ardaloedd eang o bwysigrwydd rhyngwladol o fflatiau llaid, banciau tywod a morfa heli sy'n darparu ardaloedd bwydo pwysig i adar dŵr.

## Welcome to Cors Fochno - part of the Dyfi National Nature Reserve

**This large reserve covers an area of over 2,000 ha, and is made up of three main areas and many different habitats for wildlife and plants.**

**Cors Fochno (Borth Bog):** one of the largest and finest remaining examples of a raised peat bog in Britain.

**Ynyslas Dunes:** the largest dunes in Ceredigion and although the smallest of the three areas of the Dyfi NNR, by far the most visited.

**The Dyfi Estuary:** with large areas of internationally important mudflats, sandbanks and saltmarsh that provide important feeding areas for waterfowl.




© Airbus Defence & Space a Getmapping. Atgynhyrchwyd drwy ganiatâd Llywodraeth Cymru (Taliadau Gwledig Cymru) – Mai 2015

## Llwybrau Cerdded **Cors Fochno** Walk

### Cofnodi'r dystiolaeth

**Am dros 6,000 o flynyddoedd mae mawn wedi bod yn cronni yma'n raddol ac mae nawr wedi cyrraedd dyfnder o dros 6m! Mae gweddillion llystyfiant y gors bob blwyddyn, ynghyd â phaill, gronynnau tywod a llwch folcanig wedi cael eu cadw mewn haenau yn yr amodau dyfrlawn. Mae'n archif unigryw o wybodaeth amgylcheddol o'r gorffennol sy'n galluogi gwyddonwyr i ddeall agweddau ar newid hinsawdd ac effaith dyn ar yr amgylchedd.**

Ar yr arwyneb mae yna blanhigion cors arbenigol, fel hesgen gotwm, gwlith yr haul a mwsogl cors. Yma hefyd mae nifer o bryfed prin fel gweirlöyn mawr y waun, mursen fach goch a chriciedyn hirgoes y gors. Rhywogaethau nodedig eraill sydd yma yw dyfrgi, gwiber a throellwr mawr.

**Beth allwch chi ei wneud yng Nghors Fochno?**

Dilynwch y byrddau pren cylchol ar Gors Fochno i werthfawrogi cynefinoedd y gors. Gweler manylion y llwybr isod.

### Taking down the evidence

**Peat has been accumulating here gradually and continuously for over 6,000 years and now reaches a depth of over 6m! Remains of each years' growth of bog vegetation, together with pollen, sand grains and volcanic dust are preserved in layer upon layer in the waterlogged conditions. This unique archive of environmental information is a window into the past enabling scientists to understand aspects of climate change and man's impact on the surroundings.**

On the surface specialist bog plants, like cotton sedge, sundews and bog mosses occur, and many scarce insects like the large heath butterfly, small red damselfly and the bog bush-cricket can be found. Other notable species occurring here are otter, adder and nightjar.

**What can you do at Cors Fochno?**

Follow the circular boardwalk on Cors Fochno to get a good flavour of the bog's habitats. See the route and details below.




Gwlithlys mawr
Greater sundew

Gweirlöyn mawr y waun
Large heath butterfly

© Airbus Defence & Space and Getmapping. Reproduced by permission of Welsh Government (Rural Payments Wales) – July 2015

### Llwybr Cors Fochno
### Cors Fochno Walk

Dilynwch yr arwyddion coch

Follow the red waymarker symbol

**Hawdd**

Pellter: 1 milltir/1½km

Amser: ¾ – 1 awr

UCHAFBWYNTIAU:

**Arwyneb lliwgar y gors – tapestri aur a choch o fwsoglau migwyn.** Edrychwch am rywogaethau prin ac anghyffredin yn cynnwys gweirlöyn mawr y waun (ym Mehefin), mursen fach goch (canol haf) a phlanhigion sy'n bwyta pryfed fel gwlith yr haul.

**Easy**

Distance: 1 mile/1½km

Time: ¾ – 1 hour

HIGHLIGHTS:

**The bog's colourful surface – a tapestry of gold and red sphagnum mosses.** Look out for rare and unusual species including large heath butterfly (in June), the small red damselfly (mid summer) and insect-eating plants like the sundew.

### MEWN ARGYFWNG

**Ffoniwch 999.**

**PERYGLON**

Arhoswch ar y byrddau cerdded pren – peidiwch â suddo na mynd yn sownd!

**FEL Y GALL PAWB EU MWYNHAU**

- Dim cŵn os gwelwch yn dda, i osgoi aflonyddu ar fywyd gwyllt sensitif
- Dim gwersylla dros nos na defnyddio cerbydau gwersylla yn y Warchodfa
- Dim tanau

### IN CASE OF AN EMERGENCY

**Call 999.**

**HAZARDS**

Please stay on the boardwalk – we don't want you to sink or get stuck.

**FOR EVERYONE TO ENJOY**

- No dogs please, to avoid disturbing sensitive wildlife
- No overnight camping or use of motorhomes on the Reserve
- No fires




LAWRLWYTHWCH EIN **HAPIAU DI-DÂL** ar gyfer Android ac iPhone

DOWNLOAD OUR **FREE APPS** for Android and iPhone

**PlacesToGo®** (CYMRU | WALES)

I ganfod lleoedd eraill ardderchog CNC y gellir ymweld â hwy yng Nghymru.

To find other great NRW places to visit in Wales.

**PlaceTales®** (CYMRU | WALES)

I ganfod nodweddion hynod ddifyr yng nghoedwigoedd CNC a Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol.

To discover fascinating features in NRW forests and National Nature Reserves.

www.cyfoethnaturiol.cymru
www.naturalresources.wales
0300 065 3000

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n rheoli'r Warchodfa Natur Genedlaethol hon; rhannau o gefn gwlad lle mae enghreifftiau arbennig o gynefinoedd a bywyd gwyllt Prydain wedi'u gwarchod.

Natural Resources Wales manages this National Nature Reserve (NNR); areas of the countryside where special examples of Britain's habitats and wildlife are protected.

parcio / parking

gwybodaeth / information

toiledau (ar agor Pasg tan fis Medi) / toilets (open Easter to September)

parcio mynediad hawdd / easy access parking

ffôn argyfwng / emergency telephone

facebook.com/DyfiYnyslas

Biosffer Dyfi Biosphere
*gwerth y byd - world class by nature*

Noddir gan **Lywodraeth Cymru**
Sponsored by **Welsh Government**